

CYFARFOD: PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO

DYDDIAD: 8 MEDI 2022

TEITL: DATGANIAD O GYFRIFON 2021/22

PWRPAS / ARGYMHELLIAD: DERBYN Y DATGANIAD O GYFRIFON  
STATUDOL (DRAFFT CYN ARCHWILIAD) ER  
GWYBODAETH

AWDUR: DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID

AELOD CABINET: CYNGHORYDD IOAN THOMAS

---

## 1. CYFLWYNIAD

- 1.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno'r Datganiad o Gyfrifon statudol ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22, sy'n rhoi manylion am weithgareddau ariannol y Cyngor yn ystod y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2022.
- 1.2 Y Datganiad o Gyfrifon drafft ar ei ffurf safonol yw'r ddogfen ddilynol, 88 tudalen o hyd mewn un iaith.
- 1.3 Mae'r cyfrifon drafft a gyflwynir yma wrthi'n cael eu harchwilio a cyflwynir y fersiwn derfynol yn dilyn archwiliad er cymeradwyaeth yng nghyfarfod 17 Tachwedd 2022 o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio.
- 1.4 Mae ffurf a chynnwys sylfaenol y Datganiadau yma wedi'i orfodi o dan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 (fel y'i diwygiwyd), yn ogystal â rheoliadau a safonau eraill. Mae gofynion o dan God Ymarfer Cyfrifwaith Awdurdodau Lleol y sydd yn seiliedig ar SAARh (Safonau Adrodd Ariannol Rhyngwladol) yn Natganiad o'r Cyfrifon ar gyfer 2021/22. Gan fod y rheoliadau yn mynnu datganiadau ar ffurf safonol, mae cymariaethau gyda chyfrifon cyrff eraill wedi'u hwyluso, ond erbyn hyn mae'r datganiadau yn dechnegol gymhleth ac yn fwy anodd i'w ddeall.
- 1.5 Cyflwynwyd adroddiad "alldro" syml a chryno perthnasol i gyfrifon 2021/22 i gyfarfod y Cabinet ar 14 Mehefin 2022 a'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 30 Mehefin 2022. Roedd yr adroddiad hwnnw yn fwy defnyddiol i bwrpasau mewnol / rheoli, tra mae'r Datganiad o Gyfrifon yn fwy addas ar gyfer pwrpasau allanol / llywodraethu.

## **2. GWEITHREDIAD ANGENRHEIDIOL**

- 2.1 Y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio yw'r "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu" ar ran y Cyngor. Er hyn, mae'r cyfrifoldeb am gymeradwyo ac ardystio'r cyfrifon drafft gan y Swyddog Cyllid Statudol (y Pennaeth Cyllid yn Cyngor Gwynedd).
- 2.2 Nid oes gofyn statudol i aelodau etholedig gymeradwyo'r fersiwn ddrafft o Ddatganiad o Gyfrifon y Cyngor, ond rydym yn ystyried fod cyflwyno'r datganiad drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio er gwybodaeth yn arfer da i'w ddilyn.
- 2.3 Bydd angen i aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio gymeradwyo'r fersiwn terfynol ym mis Tachwedd ar ôl derbyn adroddiad Archwilio Cymru. Ond mae cyflwyno'r fersiwn ddrafft nŵan yn gyfle i aelodau'r pwyllgor ystyried y cynnwys a holi swyddogion ariannol am y cynnwys. Mae hyn yn gyfle i'r aelodau arfogi eu hunain gyda gwybodaeth perthnasol er mwyn ystyried risgiau perthnasol, a materion eraill fydd yn destun archwiliad, yn eu cyd-destun.

## **3. CAMAU DILYNOL**

- 3.1 Ymhellach i ardystiad gan y Pennaeth Cyllid ac ystyriaeth gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, mae Datganiad o Gyfrifon 2021/22, ynghyd â phob datganiad perthnasol arall, yn destun y broses archwilio blynyddol gan Archwilio Cymru, archwilwyr allanol Cyngor Gwynedd a gafodd eu hapwyntio gan Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 3.2 Fel nodwyd ym mharagraff 1.3 (uchod), cyflwynir y fersiwn terfynol (wedi'i archwilio) o Ddatganiad o Gyfrifon 2021/22 y Cyngor i gyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 17 Tachwedd 2022 AM GYMERADWYAETH, ynghyd ag adroddiad ar ran Archwilydd Cyffredinol Cymru.
- 3.3 Wedi hynny, bwriad yr Adran Cyllid yw i ddarparu linc i'r Datganiad terfynol i holl aelodau etholedig a phrif swyddogion y Cyngor, yn ogystal ag i eraill sydd â diddordeb.

## **4. ARGYMHELLIAD**

- 4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio dderbyn a nodi Datganiad o Gyfrifon y Cyngor (yn amodol ar archwiliad) am 2021/22.